

**CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
RHONDDA CYNON TAF
COUNTY BOROUGH COUNCIL**

**Bydd cyfarfod o'r CABINET yn cael ei gynnal ym Mhencadlys y Cyngor,
Y Pafiliynau, Cwm Clydach (Siambwr y Cyngor)**

fore Iau 4 Chwefror, 2016 am 10.30

Dolen gyswllt: Mrs Emma Wilkins (Rhif ffôn 01443 424062)

Os bydd cynghorwyr neu aelodau o'r cyhoedd yn dymuno cael cyfle i annerch y Cabinet am unrhyw fater ar yr agenda isod, rhaid iddyn nhw ofyn am gael gwneud hynny erbyn 5pm ar 2 Chwefror 2016. Nodwch mai'r Cadeirydd biau'r penderfyniad i ganiatáu'r cais. Bydd pob cais yn cael ei ystyried ar sail y materion sy'n cael eu trafod ar yr agenda, buddiant y cyhoedd/y cynghorydd ynglŷn â phob mater, a'r gofynion o ran y materion sydd i'w trafod ar y diwrnod hwnnw. I wneud cais, ffoniwch Swyddfa'r Cabinet ar 01443-424062 neu anfonwch e-bost i Cabinet@rctcbc.gov.uk

MATERION I'W TRAFOD

1 DATGAN BUDDIANT

Derbyn datganiadau o fuddiannau personol gan Gynghorwyr, yn unol â gofynion Côt Ymddygiad y Cyngor.

Noder:

1. Mae gofyn i Aelodau ddatgan rhif a phwnc yr agendwm mae eu buddiant yn ymwneud ag ef a mynegi natur y buddiant personol hwnnw; a
2. Lle bo Aelodau'n ymneilltuo o'r cyfarfod o ganlyniad i ddatgelu buddiant sy'n rhagfarnu, mae **rhaid** iddyn nhw roi gwybod i'r Cadeirydd pan fyddan nhw'n gadael.

2 CYNLLUNIO GWASANAETHAU'R TYMOR CANOLIG – CYNIGION AR GYFER NEWID GWASANAETHAU

Derbyn adroddiad Carfan yr Uwch Arweinwyr sy'n rhoi gwybodaeth i'r Cabinet ynglŷn ag adborth y broses ymgynghori ac Aseidiadau Effaith ar Gydraddoldeb yn llawn mewn perthynas â chynigion ar gyfer newid gwasanaethau er mwyn penderfynu a yw'r Cabinet yn dymuno bwrw ymlaen â'r cynigion neu beidio, ac os ydy'r Cabinet yn dymuno gwneud hynny, sut mae mynd ati.

3 MATERION BRYS

Ystyried unrhyw faterion brys y mae'r Cadeirydd yn eu gweld yn briodol.

A handwritten signature in black ink, appearing to be 'A. S. Jones', written in a cursive style.

Cyfarwyddwr Gwasanaeth ac Ysgrifennydd i'r Cabinet